O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2383 (Cy.256)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 4, Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun i Gyffordd 5, Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam) (Gwaharddiadau a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011

*Gwnaed* *26 Medi 2011*

*Yn dod i rym* *3 Hydref 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Abertawe i Fanceinion (yr A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd a'i wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 3 Hydref 2011. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Cyffordd 4, Cyfnewidfa Ffordd Rhuthun i Gyffordd 5, Cyfnewidfa Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam) (Gwaharddiadau a Therfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro) 2011.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 19:00 o'r gloch ar 3 Hydref 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o'r gefnffordd, ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam, a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.